

Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod 24 Tachwedd 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Y Cyng. Julian Thompson Hill / Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

Awdur yr Adroddiad: Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

Teitl Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynghylch Archwilio Mewnol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd diweddaraaf Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n galluogi'r Pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodeb o adroddiadau Archwilio Mewnol er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd ar wasanaethau eraill y Cyngor a meysydd corfforaethol. Mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Bydd cyflawni'r cynllun archwilio yn cynorthwyo'r Pwyllgor i gael sicrwydd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu amodau'r Cyngor yn briodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, asesu cynnydd a pherfformiad yr Adain Archwilio Mewnol.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn penderfynu a oes arno angen sicrwydd pellach ynghylch meysydd a archwiliwyd i olrhain cynnydd y cynlluniau gweithredu gwelliant.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae Atodiad 1 yn darparu diweddariad ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed ers yr adroddiad diweddar diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2021.
- 4.2. Ers yr adroddiad diweddar diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mae pum archwiliad wedi'u cwblhau, a rhoddwyd graddfa sicrwydd isel i un ohonynt. Mae'r adroddiad graddfa sicrwydd isel wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Cafodd tri adolygiad dilynol ar ôl archwiliadau sicrwydd isel eu cwblhau hefyd:
- Rhoddwyd 'sicrwydd canolig' i ddau ar adeg yr adolygiad dilynol felly yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2021 penderfynodd y pwyllgor y dylai crynodeb o'r archwiliadau dilynol diweddar gael ei gynnwys yn yr adroddiad Diweddariad am Archwilio Mewnol yn hytrach nag ymddangos fel eitemau ar wahân ar y rhaglen, a
 - rhoddwyd graddfa sicrwydd isel i un. Mae crynodeb wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Diweddariad am Archwilio Mewnol ac mae'r adroddiad dilynol llawn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor fel eitemau ar wahân ar y rhaglen.
- 4.3. Mae cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2021/22 wedi'i ddarparu. Mae swydd wag Uwch-Archwilydd wedi cael ei llenwi drwy secondiad aelod presennol o'r tîm, sydd yn ei dro yn creu swydd wag ar gyfer yr Archwilydd. Mae secondiad yr Uwch-Archwilydd i'r tîm Profi, Olrhain a Diogelu wedi cael ei ymestyn tan fis Mehefin 2022.
- 4.4. Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn parhau i symud ymlaen â gwaith gwrth-dwyll yn rhagweithiol yn unol ag adroddiadau Archwilio Cymru ar Fynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, sydd yn nodi'r angen i Lywodraeth Leol i wella trefniadau gwrth-dwyll yn gyffredinol. Mae Archwilio Mewnol wedi bod yn rhan o ymchwiliadau sydd yn deillio o faterion Rhannu Pryderon sydd wedi'u codi gan weithwyr sydd wedi effeithio ar gynnydd wrth gyflawni gwaith sicrwydd. O ganlyniad, bydd y Prif Archwilydd Mewnol yn adolygu'r prosiectau blaenoriaeth sy'n weddill yn y Cynllun Archwilio 2021-22 er mwyn sicrhau bod archwiliadau blaenoriaeth uwch yn cael eu cyflawni a bod sylw addas i sicrwydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd hyn yn ystyried sicrwydd a gafwyd o ffynonellau eraill e.e. Archwilio Cymru.

4.5. Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn monitro perfformiad mewn cysylltiad â mynd i'r afael â chamau sy'n deillio o archwiliadau archwilio. Cyfrifoldeb y rheolwyr yw mynd i'r afael â chamau a cofnodi cynnydd ar y system rheoli perfformiad (Verto). Mae Archwilio Mewnol yn parhau i gynnal archwiliadau 'dilynol' ac yn adrodd ar gynnydd gan weithredu cynlluniau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau sicrwydd isel er mwyn sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud. Mae Safonau Perfformiad Archwilio Mewnol yn dangos bod canran camau archwilio mewnol sy'n cael eu cwblhau ar amser yn dal i fod yn is na'r targed. Mae nifer o gamau'n cymryd hirach i'w datrys na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol gan wasanaethau, mae hyn yn bennaf oherwydd Covid-19 a/neu bwysau capasiti.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ddim yn angenrheidiol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni cheir goblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Is-bennawd (dilëwch yn ôl yr angen)

10.1. Os na chwblheir gwaith archwilio digonol yn ystod y flwyddyn, mae yna risg na fydd y Prif Archwilydd Mewnol yn gallu tynnu ar sicrwydd digonol i gyflwyno barn flynyddol gyflawn yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Caiff archwiliadau eu blaenoriaethu i roi sylw i lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol a bydd y cwmpas ar gyfer yr archwiliadau hyn yn canolbwyntio ar risgiau allweddol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.